| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion** |
| **Dyddiad:** | **7 Chwefror 2022** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol – Polisi Tâl y Cyngor** |
| **Pwrpas** | **Cytuno ar argymhelliad i'r Cyngor llawn** |
| **Awdur:** | **Dafydd Gibbard – Prif Weithredwr** |

## CEFNDIR

**1.** Ers 2012 mae yna ddyletswydd statudol ar bob Cyngor i fabwysiadu polisi tâl yn flynyddol. Mae'r gofyn statudol hwnnw yn nodi mai swyddogaeth i'r Cyngor llawn yw cymeradwyo'r polisi tâl.

**2.** Wrth fabwysiadu'r polisi tâl ar gyfer 2012 / 13, penderfynodd y Cyngor llawn ofyn i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gynnal adolygiad blynyddol o gynaladwyedd y polisi tâl i'r dyfodol a chyflwyno argymhellion i gyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis Mawrth pob blwyddyn.

**3.** Gofynnir i'r Pwyllgor hwn felly ystyried cynnwys y drafft o bolisi tâl ar gyfer 2022 / 23 a chyflwyno argymhelliad i gyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 3ydd o Fawrth eleni.

## PRIF SWYDDOGION

**4.** Yn y cyfarfod cyfatebol y flwyddyn diwethaf, bu i'r Prif Weithredwr ar y pryd gyflwyno casgliadau ar adolygiad o gyflogau'r Prif Swyddogion. Daeth y Pwyllgor i gasgliad cyffredinol fod angen adolygu cyflogau rhai swyddi Prif Swyddogion, ond na ddylid gwneud hynny hyd nes bod penderfyniad wedi ei gymryd ar lefel cenedlaethol ynghylch a fyddai staff awdurdodau lleol yn derbyn cynnydd yn y cyflog ai peidio. Er nad oes cytundeb yn ei le eto ar gyfer y flwyddyn 2021/22 ar gynnydd mewn cyflogau, mae yna dderbyniad cyffredinol y bydd yna gytundeb maes o law. O ddisgwyl hynny felly, fe fyddaf pan ddaw cadarnhad o'r penderfyniad yn mynd ati i adolygu cyflogau swyddi unigol a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar y pwnc. Mae'n debygol felly y byddaf mewn sefyllfa i gflwyno'r adroddiad yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

**5.** Yn gwbl ar wahân i'r adolygiad uchod, dylid cofio fod gan bob Prif Swyddog yr hawl i'r codiadau cyflog sy'n cael eu pennu yn genedlaethol gan y Cyd-Gyngor Trafod Telerau Cenedlaethol ar Gyfer Prif Swyddogion. Mae'r rhain yn delerau cytundebol y mae'n rhaid i bob cyflogwr weithredu arnynt. Gyda hyn mewn golwg, mae'r drafft polisi tâl yn datgan '**fod gan y Prif Swyddogion a gyflogir o dan amodau a thelerau y Cyd-Gyngor Cenedlaethol yr hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyfernir gan y corff hwnnw a bydd y Cyngor felly yn talu'r rhain yn unol â gofynion cytundebol presennol.'** Wrth fabwysiadu'r polisi tâl blynyddol felly, mae'r Cyngor yn cymeradwyo'r codiadau cyflog cenedlaethol hyn. Fel sydd yn cael ei grybwyll uchod, nid yw'r undebau a'r cyflogwyr ar lefel Prydain wedi gallu dod i gytundeb eto ar gyfer 2021/22. Bydd angen iddynt hefyd gynnal trafodaethau ynghylch unrhyw gynnydd posib ar gyfer y flwyddyn 2022/23.

## SWYDDI O DAN LEFEL PRIF SWYDDOG

**6.** Mae gan staff sydd yn gweithio mewn swyddi o dan lefel Prif Swyddogion yr hawl cytundebol i godiadau cyflog sydd yn cael eu pennu gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar Gyfer Gweithlu

Llywodraeth Leol. Fel ar gyfer Prif Swyddogion, nid oes cytundeb eto ar gynnydd yn y cyflog ar gyfer 2021/22 a bydd angen i'r undebau a'r cyflogwyr drafod os oes unrhyw gynnydd ar gyfer 2022/23 hefyd.

**7.** Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu bwriad i ariannu cynnydd yn nghyflogau staff sydd yn gweithio yn y maes gofal i lefel y Cyflog Byw. Mae lefel y Cyflog Byw yn cael ei bennu yn flynyddol gan y Comisiwn Cyflog Byw, yn annibynnol o'r hyn a elwir yn Gyflog Byw Cenedlaethol a ddyfernir gan Lywodraeth Prydain. Ar hyn o bryd mae lefel y Cyflog Byw yn £9.90. Mae'r wybodaeth ynghylch sut y bydd angen i gynghorau gyflwyno'r cynllun o fis Ebrill 2022 ymlaen i ddod eto gan Lywodraeth Cymru, ond yma yng Ngwynedd y disgwyliad yw y bydd ein gofalwyr, o gredu y bydd yna gynnydd yn y cyflogau ar gyfer 2021/22 a hefyd 2022/23, yn derbyn cyflog yr awr a fydd uwchlaw lefel y Cyflog Byw.

**ARGYMHELLIAD**

**8.** Bod y Pwyllgor yn cynnig y Datganiad o Bolisi Tâl drafft i'r Cyngor fel un i'w fabwysiadu ar gyfer 2022 / 23.